**Rhif:** WG29109

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru (2017)

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mehefin 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Medi 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016

# Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru (2017)

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn gofyn am sylwadau yn ymwneud ag egwyddorion ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **30 Medi 2016** fan hwyraf (nodwch 'Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru' yn y blwch pwnc). |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Nathan Huish<br>Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol<br>Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 029 2082 3039 |

**Diogelu Data**

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **2** |
| **1. Cefndir i Gyngor y Gweithlu Addysg** | **3** |
| **2. Nodau Cyngor y Gweithlu Addysg** | **4** |
| **3. Cofrestru** | **5** |
| **4. Y trefniadau presennol ar gyfer ffioedd** | **6** |
| **5. Datblygu'r modelau ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg ehangach ar gyfer 2017** | **8** |
| **6. Cynigion ar gyfer modelau ffioedd cofrestru ar gyfer 2017** | **9** |
| **7. Model ffioedd arfaethedig 1 (y dewis fodel)** | **10** |
| **8. Model ffioedd arfaethedig 2** | **12** |
| **9. Model ffioedd arfaethedig 3** | **13** |
| **10. Telerau'r model ffioedd terfynol** | **15** |
| **11. Sut y gallaf gyflwyno sylwadau ar y cynigion hyn?** | **16** |
| **12. Rhestr termau** | **17** |
| **Atodiad** | **18** |

## Crynodeb

Ad-drefnodd Deddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) a'i ailenwi; gan ehangu cylch gwaith y corff; a chyfansoddiad ei aelodaeth er mwyn creu Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Digwyddodd hyn ar 1 Ebrill 2015, ac ar y dyddiad hwnnw hefyd, ehangwyd y gofyniad ar gyfer cofrestru proffesiynol i gynnwys athrawon Addysg Bellach (AB) yn ogystal ag athrawon ysgol. Ar 1 Ebrill 2016, ehangwyd y broses gofrestru ymhellach i gynnwys gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau AB.

O fis Ebrill 2017, er mwyn gweithio fel gweithiwr ieuenctid proffesiynol (gan gynnwys gweithiwr cymorth ieuenctid) neu ymarferwr dysgu seiliedig ar waith, cynigir y dylai fod yn ofynnol i unigolyn hefyd gofrestru gyda'r Cyngor.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau mewn perthynas â'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cofrestru gyda'r Cyngor. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar y cynigion ar gyfer y model ffioedd cofrestru a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu cyfres newydd o reoliadau i'w llunio o dan y Ddeddf. Y gyfres o reoliadau sy'n weithredol ar hyn o bryd yw 'Rheoliad Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016'.

Bwriedir i'r rheoliadau newydd hyn ddod i rym ar gyfer unigolion a fydd yn cofrestru o 1 Ebrill 2017.

# 1. Cefndir i Gyngor y Gweithlu Addysg

1.1 Ar hyn o bryd, mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i greu a chadw cofrestr o athrawon ysgol, athrawon AB a gweithwyr cymorth dysgu (GCD) mewn ysgolion a lleoliadau AB. Mae angen cofrestru ar gyfer y pedwar categori os ydynt yn awyddus i weithio mewn ysgolion a gynhelir neu sefydliadau AB yng Nghymru, gan gynnwys athrawon peripatetig a'r rheini mewn swyddi asiantaeth, swyddi dirprwyo neu swyddi dros dro. Mae'n ofynnol i bob cyflogwr sicrhau mai dim ond unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor a gyflogir ganddynt.

1.2 Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i weithwyr ieuenctid nac ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) gofrestru gydag unrhyw gorff rheoliadol.

1.3 Er bod Llywodraeth Cymru, ar y cychwyn, wedi nodi'r proffesiynau y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru (o dan Atodlen 2 i'r Ddeddf), nid oedd hyn yn atal grwpiau eraill rhag cael eu cofrestru yn y dyfodol, megis gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith; sydd hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran addysgu a hyfforddi pobl ifanc. Creodd Deddf 2014 fframwaith sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i ychwanegu categorïau cofrestru newydd, lle bo hynny'n briodol; ac yn amodol ar gytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.4 Yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nod Llywodraeth Cymru yw y bydd gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yn cofrestru gyda'r Cyngor o fis Ebrill 2017.

1.5 Mae'n hanfodol bod yr holl ymarferwyr gwahanol hyn yn cydweithio'n effeithiol ac y gallant fanteisio ar gymwysterau, cymorth a gweithgareddau datblygu wedi'u cynllunio'n dda. Mae eu proffesiynoldeb, eu haddasrwydd a'u safonau ymddygiad, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn allweddol i'w llwyddiant. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau ein bod yn cydnabod rôl pawb sy'n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu fel rhan o un gweithlu addysg cydlynus yng Nghymru.

## 2. Nodau Cyngor y Gweithlu Addysg

2.1 Nodau'r Cyngor yw:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru ,
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phobl eraill sy'n cefnogi'r addysgu a'r dysgu.

# 3. Cofrestru

3.1 Mae gofyniad i gofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n pennu ac yn cynnal safonau proffesiynol yn un o nodweddion allweddol sawl proffesiwn; gan sicrhau hyder y cyhoedd a dangos ymrwymiad cyffredin i broffesiynoldeb.

3.2 Mae'r gofyniad i gofrestru o fewn y gweithlu addysg yr un fath â'r gofyniad mewn perthynas ag unrhyw gorff cofrestru arall, megis nyrsys, bydwragedd a ffisiotherapyddion. Mae angen i weithwyr proffesiynol yn y sectorau hynny hefyd dalu i gofrestru eu hunain fel gofyniad cyflogaeth.

3.3 Mae buddiannau yn gysylltiedig â chofrestru, mae'n gwella statws y gweithlu; ac yn cydnabod bod pob ymarferwr addysg yn chwarae rhan hanfodol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu a gwella safonau, fel rhan o un gweithlu addysg cydlynus. Yn ogystal, ystyrir bod unigolion sydd wedi'u cofrestru:

- yn rhan o weithlu credadwy a gwerthfawr;
- yn meddu ar statws proffesiynol, gyda safonau penodol ar gyfer ymuno â'r proffesiwn hwnnw a pharhau'n aelod ohono;
- yn addas i fod yn aelod o'r proffesiwn - gan sicrhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

3.4 Mae cofrestru ymarferwyr gyda'r Cyngor yn atgyfnerthu eu proffil mewn ffyrdd cefnogol, yn hytrach na ffyrdd sy'n cael effaith andwyol ar yr amrywiaeth a geir o fewn y sectorau. Rydym yn cydnabod gwerth eu gwaith a'r cyfraniadau a wneir ganddynt i fywydau ein pobl ifanc.

3.5 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau ymgynghoriad yn 2012 mewn perthynas â chynigion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru. Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i grwpiau eraill o fewn y sector addysg gofrestru; ac y dylent dalu ffi am y cofrestriad hwnnw.

3.6 O dan Ddeddf 2014, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i bennu'r ffioedd cofrestru ar gyfer y Cyngor (drwy rinwedd adran 12).

## 4. Y trefniadau presennol ar gyfer ffioedd

4.1 Cynnig cychwynnol Llywodraeth Cymru oedd ailddosbarthu'r elfen o'r arian a ddarperir ar hyn o bryd i Awdurdodau Lleol (ALlau) yng Nghymru mewn perthynas â'r lwfans y mae athrawon ysgol yn ei gael tuag at eu ffioedd cofrestru, er mwyn helpu i dalu costau cofrestru'r gweithlu ehangach. Bwriad yr arian hwn fyddai parhau i leihau'r ffioedd a delir gan **bob** ymarferwr addysg yng Nghymru a byddai wedi cael ei dalu i'r Cyngor er mwyn cefnogi ei brif swyddogaethau, yn hytrach na'i dalu fel rhan o gyflog ymarferwyr. Byddai'r dull gweithredu hwn wedi ei gwneud yn ofynnol diwygio'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

4.2 Ar hyn o bryd, nid yw cyflog ac amodau athrawon ysgol wedi'u datganoli; a'r Adran Addysg yn Lloegr sy'n gyfrifol amdanynt. Nodir cyflog ac amodau ar gyfer athrawon mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru a Lloegr yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (dogfen statudol a gyhoeddir yn flynyddol, bob mis Medi ar gyfer dechrau pob blwyddyn academaidd ac a gaiff rym cyfreithiol drwy Orchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol).

4.3 Ni allai'r Adran Addysg fodloni amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu'r lwfans o £33 o'r Ddogfen mewn pryd i fodloni terfyn amser Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau priodol. Felly, ar gyfer blwyddyn academaidd 2015-16, cynhwyswyd y lwfans o £33 yn y Ddogfen o hyd.

4.4 Heb y diwygiad angenrheidiol i'r Ddogfen, roedd angen i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i ffordd arall o ailddosbarthu'r arian a ddarparwyd gan ALlau yng Nghymru. Cyflawnwyd hyn drwy gynyddu'r ffi wirioneddol a dalwyd gan athrawon ysgol ALl, er mwyn gwrthbwyso hynny yn erbyn y lwfans uwch o £33 a gadwyd ganddynt. Roedd y dull gweithredu hwn o gymorth wrth dalu costau cofrestru ar gyfer y gweithlu ehangach. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu ailgyfeirio'r cymhorthdal ar gyfer y gweithlu ehangach drwy ffioedd athrawon ysgol unigol, i'r Cyngor; yn hytrach na thrwy Lywodraeth Cymru, pe diwygiwyd y Ddogfen mewn pryd.

4.5 Cyfraniad ffioedd gwirioneddol athrawon ysgol yn 2016 oedd £45 o hyd (yr un peth ag athrawon AB), pe diwygiwyd y Ddogfen ai peidio. Yn syml, ni fyddai'r newid i'r Ddogfen ond wedi symleiddio'r broses ffioedd i bawb dan sylw. Er mwyn gallu cyfeirio ato'n hawdd, nodir y model ffioedd presennol isod:

| Categori | Ffi Gofrestru | Cymhorthdal | Cyfraniad |
|---|---|---|---|
| Athro Ysgol | £78* | £33 | **£45** |
| Athro AB | £49 | £4 | **£45** |
| GCD mewn ysgol | £49 | £34 | **£15** |
| GCD AB | £49 | £34 | **£15** |

***dim ond yr athrawon hynny sy'n cael y cymhorthdal o £33 drwy'r Ddogfen a dalodd £78, £45 oedd y swm a dalodd pob athro ysgol arall nad oedd yn cael y cymhorthdal o £33 (athrawon cyflenwi sy'n gweithio drwy asiantaethau, athrawon ysgolion gwirfoddol cofrestredig ac ati).**

## 5. Datblygu'r modelau ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg ehangach ar gyfer 2017

5.1 Pennodd ein dogfen ymgynghori *"Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru[1]"* y strwythurau ffioedd ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

5.2 Bydd y ffioedd ar gyfer 2017-18 unwaith eto yn seiliedig ar grwpiau proffesiwn ac yn seiliedig ar y data cyflogau a geir; dylai'r galwedigaethau sy'n ennill leiaf gyfrannu leiaf. Defnyddio methodoleg o'r fath yw'r dull mwyaf cost-effeithiol; ac mae'n arwain at arbedion sylweddol i'r rheini sy'n gweinyddu'r broses casglu ffioedd, ar lefel cyflogwyr ac ar lefel y Cyngor ei hun. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at sicrhau bod y ffi mor isel â phosibl.

5.3 Gan weithio ar y sail y bydd amcangyfrif o 73,100 o gofrestryddion (35,000 o athrawon ysgol, 5,000 o athrawon AB, 30,000 o GCD [mewn ysgolion ac AB], 1,100 o weithwyr ieuenctid proffesiynol [gan gynnwys gweithwyr cymorth ieuenctid] a 2,000 o ymarferwyr DSW - amcangyfrif yw'r holl niferoedd) yn cofrestru gyda'r Cyngor o 1 Ebrill 2017. Felly, bydd angen i'r Cyngor gynhyrchu incwm amcangyfrifedig o tua £3.4miliwn a delir gan y gweithlu drwy eu ffioedd cofrestru blynyddol. Bydd angen ariannu'r £3.4miliwn yn llwyr o'r ffioedd cofrestru, sy'n cyfateb i ffi flynyddol o £46 fesul cofrestrydd. Mae'r Cyngor yn ystyried ffyrdd o symleiddio ei wasanaethau a lleihau ei gostau gweithredu yn barhaus. Bydd gostyngiad o £3 fesul cofrestrydd yn ffioedd 2017-18 o gymharu â'r lefelau ffioedd a bennwyd yn 2016-17 (£49).

5.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr effaith a gaiff ehangu'r trefniadau cofrestru proffesiynol i gynnwys gweithwyr ieuenctid proffesiynol, gweithwyr cymorth ieuenctid ac ymarferwyr DSW ar y gweithlu addysg; ac mae'n fodlon bod y buddiannau i ganlyniadau dysgwyr yn sgil cofrestru proffesiynol yn llawer uwch na'r gost i ymarferwyr. Ar lefel ffioedd unigolion, nid ystyrir bod y ffi gofrestru flynyddol yn debygol o effeithio lefelau recriwtio na lefelau cadw yn y gweithlu addysg yng Nghymru.

[1] http://gov.wales/consultations/education/registration-fees-for-the-education-workforce-in-wales/?status=closed&lang=cy

## 6. Cynigion ar gyfer modelau ffioedd cofrestru ar gyfer 2017

6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio tair egwyddor allweddol i ddylanwadu ar y broses o ddatblygu pob model ffioedd arfaethedig, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'r egwyddorion hyn fel a ganlyn:

- **Cynaliadwyedd** - mae'n rhaid i'r ffioedd i'w talu gan y cofrestryddion fod yn ddigon uchel i sicrhau bod gan y Cyngor lefel gynaliadwy o arian i alluogi iddo ymgymryd â'i swyddogaethau statudol a'i brif swyddogaethau.

- **Cymesuredd** - mae'n rhaid i unrhyw lefel ffioedd ar gyfer cofrestru fod yn gymesur â lefelau enillion ymarferwyr, er mwyn sicrhau y gall pawb y mae'n ofynnol iddynt gofrestru wneud hynny.

- **Costeffeithiolrwydd** - mae'n rhaid i unrhyw fodel arfaethedig fod yn gosteffeithiol o ran costau gweinyddol i gyflogwyr a'r Cyngor mewn perthynas â'r trefniadau ymarferol ar gyfer casglu'r ffioedd.

6.2 Nodir y modelau ffioedd a gynigir er mwyn sicrhau bod y ffi gofrestru yn ddigon uchel i dalu costau gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â chofrestru a rheoleiddio'r gweithlu. At hynny, bydd cyfraniad y rhan fwyaf o ymarferwr y mae'n ofynnol iddynt gofrestru at y ffi yn cael ei ddidynnu o'u cyflog gan eu cyflogwr a'i drosglwyddo i'r Cyngor.

6.3 Er bod dau o'r modelau ffioedd yn cynnig y dylid defnyddio'r lwfans a ddarperir ar hyn o bryd i athrawon ysgol ALl o hyd i'w ailddosbarthu ar draws y gweithlu addysgol ehangach; mae angen i bob cofrestrydd gofio y bydd y ffioedd cofrestru hyn ymhlith y ffioedd cofrestru isaf o blith yr holl gyrff proffesiynol. Er enghraifft, codir ffi flynyddol o £120 ar nyrsys a bydwragedd, a chodir £90 ar therapyddion lleferydd a ffisiotherapyddion bob blwyddyn (gweler y tabl yn yr Atodiad).

## 7. Model ffioedd arfaethedig 1 (y dewis fodel)

7.1 Er mwyn bodloni'r holl egwyddorion allweddol, a nodir yn yr adran flaenorol, mae Llywodraeth Cymru unwaith eto yn cynnig y dylid ailddosbarthu'r elfen o'r arian a ddarperir ar hyn o bryd i ALlau ar gyfer y lwfans a gaiff athrawon ysgol tuag at eu ffioedd cofrestru (yn amodol ar argymhellion a wnaed gan y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB); a chytundeb gan Weinidogion eraill Cymru). Bydd hyn yn helpu i dalu costau cofrestru ar gyfer y gweithlu ehangach, fel y nodwyd yn ymgynghoriad 2014.

7.2 Nodir dosbarthiad arfaethedig y lwfans hwnnw yn y tabl isod, gyda'r cyfraniadau ffioedd sy'n deillio o hynny yn adlewyrchu'r gwahaniaethau cymesur o ran enillion cyfartalog rhwng y grwpiau o ymarferwyr:

| Grŵp Ymarferwyr | Ffi Gofrestru | Cymhorthdal* | Cyfraniad Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Athrawon Ysgol | £46 | £1 | **£45** |
| Athrawon AB | £46 | £1 | **£45** |
| GCD mewn ysgol | £46 | £31 | **£15** |
| GCD AB | £46 | £31 | **£15** |
| Ymarferwyr DSW | £46 | £1 | **£45** |
| Gweithwyr Ieuenctid Proffesiynol | £46 | £1 | **£45** |
| Gweithwyr Cymorth Ieuenctid | £46 | £31 | **£15** |

**Telir pob cymhorthdal yn y model hwn i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru.*

7.3 Mae'r model hwn yn adlewyrchu model ffioedd 1 a nodwyd yn ymgynghoriad 2014. Y gwahaniaeth rhwng y ddau fodel yw bod y lefel ffioedd gyffredinol yn is (gostyngiad o £49 i £46) a bod y cymhorthdal a gaiff pob categori yn llai. Y rhesymeg sy'n sail i hyn yw bod angen dosbarthu'r cymhorthdal yn awr yn ehangach er mwyn i bob ymarferwr allu cael budd ohono.

7.4 Er mwyn pennu swm y lwfans sydd ar gael i'w ddefnyddio fel cymhorthdal ar gyfer y gweithlu ehangach yn y dyfodol, seiliodd swyddogion eu cyfrifiadau ar nifer yr athrawon ysgol ALl sy'n cael y lwfans o £33 neu yr oedd ganddynt hawl i gael y lwfans hwnnw drwy'r Ddogfen yn ystod y pum mlynedd diwethaf (mae'r cyfartaledd yn cyfateb i 30,300 o athrawon ysgol = £1,000,000). Bydd y dull gweithredu hwn yn golygu y gall y cyfraniad ffioedd gwirioneddol barhau ar ei lefel bresennol (gyda phob athro ysgol/AB, gweithiwr ieuenctid ac ymarferwr DSW yn talu £45 a GCD a gweithwyr cymorth ieuenctid yn talu £15).

7.5 Fel rhan o'r model arfaethedig hwn, bydd y grwpiau ymarferwyr sy'n gyffredinol yn ennill llai (GCD a gweithwyr cymorth ieuenctid) yn cael cymhorthdal o £31 tuag at eu ffi gofrestru. **Dim ond pe diwygiwyd y Ddogfen a phe câi cyllid ei gymeradwyo gan Weinidogion i'w ddefnyddio yn y fath fodd y gellid rhoi'r model ffioedd hwn ar waith. Rydym yn rhagweld y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn gwneud penderfyniad ar ddiwygio'r Ddogfen erbyn yr haf. Os felly, rydym hefyd yn rhagweld y bydd Gweinidogion Cymru, yn gwneud penderfyniad yn dilyn yr ymgynghoriad hwn ar y model ffioedd i'w roi ar waith o fis Ebrill 2017.**

## 8. Model ffioedd arfaethedig 2

8.1 Mae'r model ffioedd arfaethedig hwn yn adlewyrchu'r model ffioedd sydd ar waith gan y Cyngor ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd lefel y ffioedd a'r cymhorthdal ar gyfer rhai categorïau yn gostwng unwaith eto am yr un rhesymau a nodir yn adran 7.3.

8.2 Dim ond os na chaiff y Ddogfen ei diwygio ac os bydd dyletswydd ar ALlau yng Nghymru o hyd i barhau i ddarparu lwfans o £33 i'r holl athrawon ysgol a gyflogir ganddynt y defnyddir y model ffioedd hwn.

8.3 Mae'r gwahaniaethau rhwng y Model hwn a Model 1 fel a ganlyn:

(i) mae'r ffioedd ar gyfer athro ysgol ALl yn uwch, gan y byddant yn cadw eu lefel lwfans bresennol drwy eu cyflog drwy'r Ddogfen. Y rhesymeg dros gynyddu'r ffioedd yw er mwyn gwrthbwyso hynny yn erbyn y lwfans o £33 y maent yn ei gael; ac er mwyn galluogi i'r cymhorthdal barhau i ymarferwyr eraill. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y caiff y cymhorthdal ar gyfer y gweithlu ehangach ei ailgyfeirio drwy ffioedd athrawon ysgol ALl unigol, i'r CGA; yn hytrach na thrwy Lywodraeth Cymru a'i ddarparu i'r CGA fel cyllid bloc.

(ii) heb y diwygiad angenrheidiol i'r Ddogfen, ni châi digon o gymhorthdal ei gynhyrchu o ganlyniad i'r niferoedd uwch na'r disgwyl o GCD (tua 30,000), i allu cadw'r ffi ar gyfer y gweithlu ehangach ar £15. Felly, bydd angen cynyddu'r ffi ar gyfer GCD mewn ysgolion neu AB a gweithwyr cymorth ieuenctid i £18. (Roedd 27,686 o athrawon ysgol ALl yn cael cymhorthdal ym mis Mawrth 2016).

8.4 Ceir manylion y model ffioedd hwn yn y tabl isod:

| Categori | Ffi Gofrestru | Cymhorthdal | Cyfraniad |
|---|---|---|---|
| Athro Ysgol | £78* | £33 | **£45** |
| Athro AB | £46 | £1 | **£45** |
| GCD mewn ysgol | £46 | £28 | **£18** |
| GCD AB | £46 | £28 | **£18** |
| Ymarferwyr DSW | £46 | £1 | **£45** |
| Gweithwyr Ieuenctid | £46 | £1 | **£45** |
| Gweithwyr Cymorth Ieuenctid | £46 | £28 | **£18** |

***dim ond yr athrawon hynny sy'n cael y cymhorthdal o £33 drwy'r Ddogfen a dalodd £78, £45 oedd y swm a dalodd pob athro ysgol arall nad oedd yn cael y cymhorthdal o £33 (athrawon cyflenwi sy'n gweithio drwy asiantaethau, athrawon ysgolion gwirfoddol cofrestredig ac ati.)***

## 9. Model ffioedd arfaethedig 3

9.1 Os na fydd yr arian ar gyfer y cymhorthdal bellach ar gael ar unrhyw adeg (boed hynny cyn gweithredu'r model ffioedd ar gyfer y Cyngor, neu ar ryw adeg arall yn y dyfodol) gan Weinidogion Cymru neu Lywodraeth y DU, yna byddai angen model ffioedd cofrestru arall (fel y nodwyd yn ymgynghoriad 2014). Nid yw'n bosibl rhagweld yn sicr o dan ba amgylchiadau penodol y gallai hyn ddigwydd gan ei fod yn dibynnu ar benderfyniadau ar flaenoriaethau gwariant yn y dyfodol, ymrwymiadau/rhwymedigaethau, cyllidebau yn y dyfodol a dyrannu adnoddau ariannol yn y dyfodol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hynny. **Dim ond os na fydd y cymhorthdal bellach ar gael y defnyddir y model hwn.**

9.2 Mae'r model ffioedd hwn yn seiliedig ar raddfa ffioedd amrywiol rhwng ymarferwyr â galwedigaeth sy'n gyffredinol yn ennill mwy (athrawon ysgol ac AB, ymarferwyr DSW a gweithwyr ieuenctid) ac ymarferwyr â galwedigaeth sy'n gyffredinol yn ennill llai (GCD mewn ysgolion ac AB a gweithwyr cymorth ieuenctid).

9.3 Wrth gwrs, y ffordd symlaf fyddai ei gwneud yn ofynnol i bob cofrestrydd dalu'r cyfraniad llawn, sef £46. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn bodloni un o egwyddorion allweddol y model o ran 'cymesuredd'.

9.4 Fel arall, gallem bennu ffioedd o £68 fesul cofrestrydd ar gyfer pob athro, gweithiwr ieuenctid proffesiynol ac ymarferwr DSW, er mwyn cynnal ffi o £15 i GCD a gweithwyr cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, byddai hyn yn gynnydd sylweddol i'r rheini y mae'n ofynnol iddynt dalu £68, heb unrhyw gynnydd i'r rheini y mae'n ofynnol iddynt dalu £15, a fyddai wrth gwrs yn annheg.

9.5 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r opsiwn tecaf fyddai cynyddu'r ffi i bob grŵp er mwyn sicrhau cydbwysedd, tra'n cadw'r ffi ar lefel gymesur i bob cofrestrydd hefyd. Pe gwnaed hynny, gellid pennu lefel y ffioedd mewn sawl gwahanol ffordd. Nodir yr opsiynau posibl yn y tabl isod. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig os mai'r model hwn sydd ei angen ar gyfer cofrestru ym mis Ebrill 2017, y câi opsiwn 3 yn y model ei ddefnyddio, gan ei fod yn cydymffurfio â'r 'egwyddorion allweddol' a nodir ym mharagraff 6.1. Fodd bynnag, rydym unwaith eto yn croesawu unrhyw sylwadau ar y mater hwn.

9.6 Nodir yr opsiynau yn y tabl isod:

| Opsiwn Ffioedd | Athrawon Ysgol, AB, Gweithwyr Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith | Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn Ysgolion ac AB a Gweithwyr Cymorth Ieuenctid |
|---|---|---|
| **1** | £68 | £15 |
| **2** | £65 | £20 |
| **3** | £61 | £25 |
| **4** | £58 | £30 |
| **5** | £54 | £35 |
| **6** | £51 | £40 |
| **7** | £46 | £46 |

## 10. Telerau'r model ffioedd terfynol

10.1 Ein bwriad yw y bydd y model ffioedd terfynol a fydd yn weithredol i'r Cyngor ym mis Ebrill 2017 – mae’r model terfynol yn dibynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn; argymhellion a wneir gan y Bwrdd Adolygu Athrawon Ysgol, a newidiadau dilynol a wneir i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a chytundeb gan Weinidogion Cymru. Bydd y model ffioedd terfynol yn destun adolygiadau blynyddol yn erbyn costau gweithredu'r Cyngor, gan mai dim ond amcangyfrif y costau hyn y gellir gwneud ar hyn o bryd – ac fel y cyfryw, y gall arwain at newid i'r ffi flynyddol i gofrestryddion yn y dyfodol.

10.2 Fel y nodwyd yn adran 9.1, os na fydd yr arian ar gyfer y cymhorthdal arfaethedig bellach ar gael ar unrhyw adeg yn y dyfodol, rydym yn cynnig y dylid rhoi Model 3 ar waith, fel y nodir uchod.

## 11. Sut y gallaf gyflwyno sylwadau ar y cynigion hyn?

11.1 Rhestrir cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb ar wahân; ac fe'ch gwahoddir i roi atebion i'r cwestiynau hyn, neu i gyflwyno sylwadau mwy cyffredinol. Gellir ei chyflwyno'n electronig neu fel copi caled, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 2 o'r ddogfen hon

## 12. Rhestr termau

| | |
|---|---|
| AB | Addysg Bellach |
| Athro Ysgol' | Athro mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru (gan gynnwys athrawon cyflenwi). |
| Athro AB' | Athro, darlithydd neu diwtor mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru - defnyddir y term 'athro' yn lle 'darlithydd' er mwyn adlewyrchu'r derminoleg a defnyddir yn Neddf Addysg (Cymru) 2014. |
| Gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol | Mae gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn ategu'r gwasanaethau a ddarperir gan athro ysgol mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru |
| Gweithiwr cymorth dysgu AB | Gweithiwr cymorth dysgu AB mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru |
| Ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith | Ymarferwyr DSW sy'n darparu hyfforddiant a gwasanaethau dysgu drwy ddarparwr dysgu seiliedig ar waith o dan gontract i Lywodraeth Cymru; gan ymwneud yn rhannol neu'n llwyr â'r broses o ddarparu dysgu seiliedig ar waith, a thrwy unrhyw lefel o drefniant cytundebol. Bydd pob un ohonynt yn gweithio gyda phobl ifanc mewn rhinwedd hyfforddi a dysgu. |
| Gweithiwr Ieuenctid Proffesitnol | Diffinnir Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol fel unigolyn sydd wedi cwblhau cymwysterau cymeradwy/perthnasol yn llwyddiannus ym maes gwaith ieuenctid neu astudiaethau cymunedol. |
| Gweithiwr Cymorth Ieuenctid | Diffinnir Gweithiwr Cymorth Ieuenctid fel unigolyn sydd wedi cwblhau cymhwyster ymarfer gwaith ieuenctid. |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| STRB | Corff Adolygu Athrawon Ysgol |
| STPCD | Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol |

# Atodiad

| Corff Rheoliadol y DU | Proffesiwn | Ffi Gofrestru |
|---|---|---|
| Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr | Cyfreithwyr | £872 ynghyd â thâl gweinyddol o £48 |
| Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol | Ceiropractwyr | £750 cofrestriad cyntaf / £800 adnewyddu |
| Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol | Osteopathiaid | £320 adeg ymuno |
| Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Deintyddion, Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol e.e. nyrs ddeintyddol, hylenwyr, technegwyr | Deintyddion £890<br>Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol £116 |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | Meddygon | £425 |
| Cymdeithas Frenhinol y Milfeddygon | Milfeddygon,<br>Nyrsys Milfeddygol | Cofrestru Milfeddygon £299<br>Cofrestru Nyrsys Milfeddygol £112 / adnewyddu £61 |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol | Optegwyr | Cofrestru £320 (£210 i'r rhai ar incwm is)<br>Cofrestru Myfyrwyr £25 |
| Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol | Fferyllwyr | £198 |
| Y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg | Peirianwyr a Thechnegwyr | £65 - £205 gan ddibynnu ar lefel y cymhwyster |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | Nyrsys / Bydwragedd | £120 |
| Cyngor y Gweithwyr Iechyd Proffesiynol | 15 o broffesiynau e.e. Ffisiotherapyddion, Therapyddion Lleferydd, Ciropodyddion | £90 |
| Y Cyngor Addysgu (Iwerddon) | Athrawon yng Ngweriniaeth Iwerddon | €90 cofrestriad cychwynnol / €65 adnewyddu |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban | Athrawon | £124 cofrestriad cychwynnol, £50 adnewyddu |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon | Athrawon | £44 |
| Cyngor Gofal Cymru | Gweithwyr cymdeithasol / rheolwyr gofal cymdeithasol | £30 |